GRŴP

# Antur Iaith



Bydd pawb yn gweithio yn Google Classroom ar eich *Chromebooks.*

*Byddwch yn darllen erthygl ar y we, gweld clipiau fideo yna'n ateb cwestiynau.*

Eich her yw **'mynegi barn'** sef dweud sut yr ydach yn teimlo am rhywbeth a pham. Mae'n rhaid i chi feddwl a thrafod efo eich grŵp. Bydd yn rhaid i chi ffurfio barn a dweud mwy am eich rhesymau. Dewisiwch unai yr **Her Arbennig** *(3 brawddeg)* neu beth am herio eich hunain a dewis yr **Her Rhagorol** *(5 brawddeg)*?

**Pob lwc yn ceisio bod yn dditectifs geiriau!**



POB LWC!

MYNYDDOEDD

Karen MacIntyre Huws

(Taflen wrth gefn)

# Un enw yn unig i’r Wyddfa?




Yr Wyddfa ydi mynydd uchaf Cymru, a'r enw Saesneg arno ydi 'Snowdon.'
Yn ddiweddar mae trafodaeth fyrlymus wedi bod ynglyn â chael dim ond UN enw ar y mynydd, sef yr enw Cymraeg yn unig.
Mae hyn wedi hollti barn pobl yn arw.  Mae rhai yn teimlo mai dim ond enw Cymraeg dylai fod ar gopa uchaf Cymru, ond mae eraill yn meddwl mai syniad gwirion a ffôl ydi anghofio'r enw 'Snowdon.'

**Mae angen eich barn chi CHI ar y mater!**

Cofiwch barchu barn pawb - y pethau gwahanol rhwng pobl sy'n gwneud y byd yn lle difyr!

BE 'DI DY FARN DI?